

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 8 Ionawr 2018 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol:

Cyng. Llinos Price (*Cadeirydd*)

Cyng. Auriol Williams

Cyng. Peter Williams

Cyng. Matthew Morgan

Cyng. Clive Davies (*aelod lleol y Cyngor Sir*)

Cyng. Dilwyn Jenkins (*Is-Gadeirydd*)

Cyng. Ann Stokoe

Cyng. Lloyd Jenkins

Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, bawb i gyfarfod mis Ionawr. Dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau a llongyfarchodd y Cyng. Lyn Jones ar enedigaeth wyres, Lois. Hefyd dymunodd yn dda i Rhidian, mab y Cyng. Dilwyn Jenkins, yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

- 1a. **Cyflwyniad gan Ms Vicky Moller:** Ailgartrefu teulu o wlad Syria yn y gymuned.

Croesawodd y Cadeirydd Ms Moller a gwahoddwyd hi i roi ei chyflwyniad. Soniodd am lwyddiant y fenter i sefydlu teulu yn nhref Aberteifi a'r problemau oedd rhaid eu goresgyn cyn cyrraedd y nod. Mae cynllun y llywodraeth, "Nawdd Cymunedol", yn caniatáu i deuluoedd sydd yn ffoi rhag rhyfel erchyll Syria i ymgartrefu'n ddiogel mewn cymunedau diogel yng Nghymru. Gallant weithio yn y gymuned a chael yr un buddsoddiadau a chefnogaeth â theuluoedd Prydeinig am bum mlynedd. Gallant wneud cais i aros yma os dymunant neu ddychwelyd i'w gwlad. Mae cyfieithwyr, ysgolion, athrawon a chyfeillion ar gael i gynorthwyo hwy i integreiddio. Mae angen i'r elusen "Croeso Teifi" godi cyllideb sylweddol i gyrraedd y nod. Gofynnodd Ms Moller i'r aelodau wyntyllu'r cynllun o fewn y gymuned i weld os oes yna ddiddordeb a'r awydd i weithredu tuag at lwyddiant y bwriad dyngarol hwn.

Mewn egwyddor, cytunwyd i'r aelodau drafod y cynllun gyda sefydliadau lleol ac unigolion gan esbonio'r goblygiadau o ailgartrefu teulu anghenus yn y gymuned ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor gyda'u canlyniadau.

Gofynnodd Ms Moller am fanylion cyswllt swyddogion capeli'r gymuned. Diolchwyd iddi am ei chyflwyniad diddorol; cytunwyd yn hwyrach anfon llythyr o ddiolch iddi.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Eurig Lloyd, Des Davies, Lyn Jones.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol:**

Cynigiwyd gan y Cyng. Ann Stokoe ac eiliwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Dim

5. **Materion yn codi:**

- (a) **Brynteg, Ferwig:** Diweddariad y llechen goffaol yn y clawdd gyferbyn i Hen Ysgol y Ferwig. Er mwyn gwneud cais am gymorth ariannol, rhaid derbyn dau neu dri amcanbris erbyn y cyfarfod nesaf; gellir wedyn symud ymlaen â'r gwaith.
- (b) **Damweiniau cerbydau ger llyn Jumaro, Gwbert:** Ymateb oddi wrth Adran Drafnidiaeth y Cyngor Sir yn datgan mai cyfrifoldeb perchnogion y tir yw gosod arwyddion ar y safle.
- (c) **Ystafell Berkley, Penyparc:** Diweddariad ynglŷn â'r gweithredoedd. Disgwylir ymateb oddi wrth gyfreithwyr Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig

PTA Ysgol Gymunedol Penyparc (mis Tachwedd)

Ysgol Feithrin Penyparc

Papur Bro "Y Gambo"

Cyngor ar Bopeth

I'w drafod ym mis Ebrill 2018

£150

£2,000

£150

I'w drafod ym mis Ebrill 2018

(*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais*)

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

7. Cynllunio: Dim

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Rhagfyr 2017)	101661	£308.77
Costau'r Clerc (Rhagfyr 2017)	101662	£43.20
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Rhagfyr 2017)	101663	£77.20
Hen Ysgol y Ferwig (Tâl am hurio'r Hen Ysgol yn ystod 2017)	101664	£100.00
SWALEC: (Trydan i'r ystafelloedd newid yn Ystafell Berkley)	101665	£28.25

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Lloyd Jenkins bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Derbyniadau: Dim.

Materion ariannol eraill:

Dosberthir adroddiad y cyfrifon am y naw mis hyd 31 Rhagfyr 2017 i'r aelodau yn y cyfarfod.

Cymeradwywyd hwy gan y Cyngor: Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Ann Stokoe.

Penderfynwyd ar braesept o £20,000 am y flwyddyn 2018-19. Cynyddwyd y praesept oherwydd gofyniadau posib am welliannau i lôn y Mwnt a hefyd cysgodfan bysiau newydd i bentref Penyparc; yn ogystal, disgwylir derbyn cais oddi wrth Gapel Penyparc am gymorth tuag at welliannau i'r festri er mwyn ei defnyddio fel neuadd gymunedol. Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Peter Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins.

9. Gohebiaeth:

72	Y Cyng. Lynford Thomas, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion	Carden Nadolig i'r Cyngor	Nodwyd
73	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Briffyrdd)	Gwybodaeth ynglŷn â Chysgodfan Bysiau.	Mae'r Cyng. Matthew Morgan wedi cytuno i gael pris am un cyffelyb i'r un gwreiddiol.
74	Mr K. M. Griffiths Lleifior, Ferwig	Cadarnhad bod Mr Griffiths yn barod i archwilio cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2017-18	Nodwyd
75	Cyngor Sir Ceredigion (Adran Cyllid)	Trefniadau'r Praesept 2018-19	Nodwyd (gweler eitem 8 uchod)

10. Materion Eraill:

- Llwybr Arfordir o Olygfan Gwbert i Westy'r Cliff:** Neges oddi wrth Mr Nigel Nicholas, Swyddog Llwybrau'r Cyngor Sir, yn datgan y bydd y llwybr yn cael ei ailosod yn ystod yr wythnosau nesaf; bydd arwyddion yn datgan y gwelliannau hyn yn cael eu gosod.
- Caegwyrdd, Penyparc:** Cytunwyd monitro defnydd y cae chwarae dros gyfnod yr haf ac i drafod y canlyniadau ym mis Medi.
- Baw cŵn ar y palmentydd yn Penyparc:** Mae'r Cadeirydd yn y broses o drefnu noson yn festri Capel Penyparc er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd i'r mater yma. Mae disgyblion Ysgol Gymunedol y pentref wedi creu posteri i'w defnyddio i hysbysu'r broblem. Gwahoddir y wasg a'r heddlu i'r cyfarfod.

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

- Er gwybodaeth:** Datganiad oddi wrth y Cyngor Sir – "Chwilio am syniadau i gefnogi cymunedau a diwydiant pysgota Bae Ceredigion".
- Enwebiad am berson i fynychu Garddwest y Frenhines yn ystod Mai/Mehefin.**

Yn dilyn trafodaeth fer, awrgymwyd enw Mr Haydn Lewis, Mount Pleasant, Ferwig, fel person perthnasol sydd yn haeddu'r clod. Bu Mr Lewis yn gynghorydd sir a chymuned am bron hanner can mlynedd yn yr ardal a gwasanaethodd yr ardal eang hyd eithaf ei allu; cafodd yr anrhydedd hefyd o fod yn gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion ddwy waith. Yn rhinwedd ei swydd, bu'n gynrychiolydd y cyngor sir ar Gomisiwn Heddlu Dyfed-Powys am gyfnod. Yn ogystal, mae Mr Lewis yn aelod blaenllaw o sefydliadau diwylliedig a chrefyddol y fro.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (c) **Grŵp Cymunedol Gwarchod Cyflymder:** Mai angen hyd ddeuddeg o bobl sydd yn barod i weithredu fel aelodau o'r grŵp; bydd rhaid dilyn canllawiau llym mewn hyfforddiant.
- (d) **Parcio ar y palmant yn Penyparc:** Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod y broblem yma wedi ei datrys erbyn hyn, ond dywedodd y Cyng. Llinos Price bod y broblem yn parhau gyda phreswylwyr sy'n dal i barcio'n gyson ar y palmant ac yn creu problemau i gerddwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn.
- (e) **Golau yn y gysgodfan bws yn Penyparc:** Mae'r anghydfod am gyfrifoldeb y golau yn parhau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir.
- (f) **Ffordd i lawr i Mwnt:** Mae'r Cyngor Sir yn barod i drafod y gwelliannau gyda pherchnogion y tir gyda'r bwriad i osod manau pasio mwy cyfleus ac ymarferol.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 5 Chwefror (YB)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2018

5 Mawrth (F) 9 Ebrill (YB) 14 Mai (F) 4 Mehefin (YB)
2 Gorffennaf (F) 3 Medi (YB) 1 Hydref (F) 5 Tachwedd (YB) 3 Rhagfyr (F)
Dynoda F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 8 January, 2018 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Present

Cllr Llinos Price (*Chairperson*)

Cllr Auriol Williams

Cllr Peter Williams

Cllr Clive Davies (*local member of the County Council*)

Cllr Dilwyn Jenkins (*Vice Chairperson*)

Cllr Ann Stokoe

Cllr Lloyd Jenkins

Hildreth Owen (Clerk)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Llinos Price, welcomed everyone to the January meeting, and wished all members a Happy New Year. She also congratulated Cllr Lyn Jones who recently became a grandfather to Lois. She wished the son of Cllr Dilwyn Jenkins, Rhidian, a speedy recovery following hospital treatment.

1a. Presentation by Ms Vickie Moller: Resettlement of a Syrian family in the community:

The Chairperson welcomed Ms Moller and invited her to give her presentation. She mentioned the success of resettling a family in Cardigan and the obstacles which were overcome to achieve this aim. The government scheme, named "Community Sponsorship", allows approved families fleeing from war-torn Syria to a safe home in the Welsh communities. They can work in the community and have the same benefits and support as a British family for five years. They can then apply to stay in the UK if they so wish or return to their homeland. Interpreters, schools, teachers and friends are contacted to ease the settlement. The Croeso Teifi charity is required to have sufficient funds to show that it can achieve its aim. Ms Moller asked the members to enquire within the local community whether the interest and desire exist to pursue this humanitarian objective. In principle, it was agreed that councillors engage with local organisations and individuals circulating the possibility of resettlement and to report back to the next Council meeting with an update of their conclusions. Ms Moller requested the contact details of local chapels' officers. She was thanked for her most interesting presentation. It was later agreed to forward a letter of gratitude to Ms Moller for her visit.

- 2. Apologies for absence:** Cllrs Eurig Lloyd, Des Davies, Lyn Jones.

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Ann Stokoe and seconded by Cllr Auriol Williams that the December minutes be recorded as correct.

- 4. Declaration of personal interests:** Nil.

5. Matters arising:

- (a) Brynteg, Ferwig:** Update regarding replacing the commemorative slate in the hedge opposite to the Ferwig Old School. In order to apply for grant aid, two or three quotations are required before commencing the work.
- (b) Vehicle collisions near Jumaro lake, Gwbert:** The Highways Department of the County Council has stipulated that the responsibility of placing hazard signage remains with the property owner.
- (c) Ystafell Berkley, Penyparc:** Update regarding lease: a response is awaited from the YFC solicitor.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig

PTA Ysgol Gymunedol Penyparc

Ysgol Feithrin Penyparc

Local Welsh newspaper "Y Gambo"

Citizens' Advice Bureau

To be discussed at the April 2018 meeting

£150

£2,000

£150

To be discussed at the April 2018 meeting

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

- 7. Planning:** Nil

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's wages (December 2017)	101661	£308.77
Clerk's Expenses (December 2017)	101662	£43.20
HM Customs & Excise (Clerk's Income Tax December 2017)	101663	£77.20
Hen Ysgol y Ferwig: Payment for hire of Ystafell Berkley for 2017	101664	£100.00
SWALEC: Electricity for changing rooms at Ystafell Berkley	101665	£28.15

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that the above bills be paid

Receipts: Nil

Other Financial Matters:

The financial report for the nine months to 31 December 2017 was distributed to members.

The report was approved by members. Proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Ann Stokoe.

It was agreed to increase the precept to £20,000 for the 2018-19 financial year. The increase was set due to the proposed improvements to the Mwnt lane and also supplying a new bus shelter at Penyparc. An application for financial aid is expected from Penyparc Chapel for improvements to the vestry which is to be utilised as a village community centre.

The above was proposed by Cllr Peter Williams and seconded by Cllr Lloyd Jenkins

9. Correspondence

72	Cllr Lynford Thomas, Chairman of Ceredigion County Council	Christmas card received.	Noted
73	Ceredigion County Council (Highways Department)	Information regarding bus shelters.	
74	Mr K. M. Griffiths, Lleifior, Ferwig	Confirmation that Mr Griffiths has agreed to audit the 2017-18 Council accounts.	Noted
75	Ceredigion County Council (Finance Department)	Precept Arrangements 2018-19	Noted (see item 8)

10. Other matters:

- (a) **Coastal path from the Viewpoint to Gwbert:** A message has been received from Mr Nigel Nicholas, footpath officer with the County Council, stating that the pathway will be resurfaced during the next few weeks; signage informing the public of this improvement will be placed.
- (b) **Caegwyrdd, Penyparc:** It was agreed to monitor the use of the play area during the summer period and to discuss the results at the September meeting.
- (c) **Dog fouling on the pavements in Penyparc:** The Chair is in the process of organising a meeting at Penyparc Chapel vestry to raise the issue with the public. Pupils at Ysgol Gymunedol Penyparc have designed effective posters highlighting this anti-social problem. The press and police will be invited to attend the meeting.

11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

- (a) **Er gwybodaeth:** Datganiad oddi wrth y Cyngor Sir – “Chwilio am syniadau i gefnogi cymunedau a diwydiant pysgota Bae Ceredigion”.
- (b) **Nomination of a person to attend the Queen's Garden Party in May/June:**
Following a short discussion, it was recommended that Mr Haydn Lewis, Mount Pleasant, Ferwig, be nominated as a person most worthy to attend the Garden Party. Mr Lewis served as a county and community councillor for his area for nearly half a century and worked diligently for the good of his electorate. He was honoured as Chairman of Ceredigion County Council on two occasions, and

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

represented the authority on the Dyfed-Powys Police Authority for a number of years. Mr Lewis continues to serve the community as a staunch member of religious and cultural organisations.

- (c) **Traffic monitoring system at Penyparc village:** Up to twelve members of the public would be required to form an effective group; members are expected to receive the relevant training with strict directives to uphold.
- (d) **Inconsiderate parking on Penyparc pavements:** Cllr Davies stated that the issue was more or less solved. The Chair added that one family persisted with parking on the pavement and thereby obstructing the right of way for pedestrians and wheelchair users.
- (e) **Light in the Penyparc bus shelter:** The dispute regarding ownership continues between the Welsh Government and Ceredigion County Council.
- (f) **The highway to Mwnt:** The County Council is prepared to discuss the improvements to the passing bays with local land owners.

12. Date of next meeting: 8 January (F) at Hen Ysgol y Ferwig

Council Meetings, 2018

5 February (YB) 5 March (F) 9 April (YB) 14 May (F) 4 June (YB)
2 July (F) 3 September (YB) 1 October (F) 5 November (YB) 3 December (F)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley